



HM Government

Os ydych chi'n dioddef camdriniaeth ddomestig, mae help ar gael.

Ydych chi'n teimlo'n anniogel neu'n ynysig gartref?

Ydych chi'n ofni'ch partner neu aelod o'r teulu?

Oes rhywun yn eich bywyd yn rheoli beth rydych
chi'n ei wneud neu pwy rydych chi'n eu gweld?

GOFYN AM ANI



A





Beth yw Gofyn am ANI?

Cynllun geiriau cod yw Gofyn am ANI (Angen Noddfa Iach) ac mae'n cynnig ffordd ddiogel, gynnil a chyfrinachol i bobl sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig gael help ar unwaith gan eu fferyllfa neu eu canolfan waith leol.

Beth yw Man Diogel?

Mae Gofyn am ANI yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth â Mannau Diogel, sef stafell ddiogel a chyfrinachol lle gall dioddefwyr gymryd amser i feddwl, cael gafael ar wybodaeth am wasanaethau cymorth arbenigol neu ffonio ffrindiau neu'r teulu.

I gael help, dilynwch y tri cham syml yma:



Cam 1:

Defnyddiwch ein chwiliwr codau post yn gov.uk/ask-for-ani i ffreindio'ch fferyllfa neu'ch canolfan waith agosaf sy'n cymryd rhan.

Cam 2:

Ewch yno, ewch at aelod o'r staff a gofyn am ANI neu ofyn am gael defnyddio Man Diogel ("Ga i siarad ag ANI?" neu "Ga i ddefnyddio Man Diogel?")

Cam 3:

Byddan nhw'n mynd â chi i le preifat lle bydd aelod o staff sydd wedi'i hyfforddi yn eich cefnogi, ac fe gewch chi benderfynu beth i'w wneud nesaf.

**I GAEL RHAGOR O WYBODAETH AC I CHWILIO
AM EICH DARPARWR AGOSAF, EWCH I:
[GOV.UK/ASK-FOR-ANI](https://gov.uk/ask-for-ani)**

